

# Llais y Llywodraethwyr

Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni/ Annual Report to Parents  
Medi/September 2023- Gorffennaf/July 2024



## Adroddiad y Cadeirydd i rieni ar ran y Corff Llywodraethol

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Bu'n flwyddyn gyffrous gyda'r ysgolion a'r Ffederasiwn yn cymryd rhan mewn amryw weithgareddau a digwyddiadau e.e. cystadlaethau chwaraeon amrywiol, teithiau preswyl Ffederasiwn, cyngerdd Ffederasiwn. Dathlwyd nifer o lwyddiannau ym myd yr Eisteddfod ar lefel unigol, parti ac o fewn yr adran Celf a Chrefft.

Rwy'n credu gallwn ddweud yn sicr mai un uchafbwynt y flwyddyn oedd sioeau Mam Maria. Hoffwn longyfarch pob plentyn am eu perfformiad ac i'r holl staff am baratoi a chydlynu popeth mor broffesiynol. Hoffwn hefyd longyfarch disgyblion Blwyddyn 5 a 6 am eu rhan o fewn prosiect y crud o dan arweiniad Opera Cymru. Prosiect lle roedd y disgyblion yn cydweithio gyda'r cwmni opera a sefydliadau dementia cyfeillgar lleol. Roedd y gyngerdd yn mis Mehefin yn binacl i'r holl waith – Da iawn chi blant.

Braf hefyd yw datgan bod yr ysgol yn ganolbwynt o fewn eu cymuned leol. Mae'r rhestr o gysylltiadau yn ddi-ddiwedd ond yn cynnwys canu mewn ffeiriau a chyngherddau Nadolig amrywiol, ymweliadau â sefydliadau, siopau lleol a chartrefi henoed, cysylltiadau gyda'r capel a'r eglwys a'r cysylltiadau gyda'r cylchoedd meithrin lleol.

Eleni eto rydyn wedi manteisio gymaint â phosibl ar weithio fel Ffederasiwn ac mae'r staff yn elwa yn wythnosol trwy gydweithio a chyd-gynllunio ynghyd â rhannu arfer dda. Yn ogystal â mabolgampau Ffederasiwn a'r ymweliadau preswyl ar y cyd, mae'r ysgolion wedi ehangu profiadau'r plant trwy gyfuno ysgolion i greu timoedd Ffederasiwn er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn medru cystadlu a chymryd rhan.

Mae'n amlwg, yn dilyn teithiau o amgylch y tair ysgol, bod y disgyblion yn hapus a diogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi o fewn yr ysgolion. Mae naws ac ethos gartrefol a chroesawgar o fewn pob un. Mae safonau yn dda ac o ganlyniad mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae sicrhau ysgol lwyddiannus yn waith tîm a rhaid i mi gyfeirio a diolch i Mrs. Sian Davies y pennaeth am ei harweiniad cadarn a sut mae'r uwch dim cydwybodol (Mrs. Alison Morgan, Miss. Alana Walker a Mrs. Lisa Williams) yn cydweithio gyda'r pennaeth, y corff llywodraethol a'r tîm cadarn o staff i hunan wella'r ysgol. Hoffwn ddiolch i chi gyd yn gyd-lywodraethwyr, staff a theluoedd am eich cefnogaeth barhaus i'r tair ysgol. Mae Mrs Carys Davies wedi ymgartrefu yn dda yn ei rôl fel Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) y Ffederasiwn ac yn wythnosol mae'n ymweld â'r tair ysgol er mwyn cynnal trafodaethau, dod i adnabod y disgyblion ynghyd â chefnogi staff ac unigolion.

Braf fel llywodraethwr ydy derbyn y llythyron wythnosol a'r dyddiadau er mwyn medru achub mantais a mynychu digwyddiadau. Braf gweld bod y llythyron wythnosol ar ddechrau pob wythnos yn parhau i fod yn ffynhonnell wybodaeth effeithiol i'r holl rieni a ffrindiau'r ysgol.

Hoffwn cyn cloi ddiolch i Mrs. Donna Williams ein cyn-gadeirydd. Mae Donna wedi cydweithio gyda'r ysgolion ers nifer o flynyddoedd, yn gyn-bennaeth a oedd o hyd yn cefnogi uwchlaw ei rôl fel llywodraethwraig. Bu'n gefnogaeth amhrisiadwy i'r Ffederasiwn ers ei sefydlu yn Ebrill 2021. Hoffwn hefyd ddiolch i Miss. Helen Pugh ein cadeirydd cyllid am rannu ei harbenigedd ar faterion cyllidol gyda'r is-bwyllgor yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Edrychwn ymlaen unwaith eto at flwyddyn lwyddiannus arall o fewn y Ffederasiwn. Unwaith eto, diolch i chi gyd am eich cefnogaeth aruthrol a dymunaf y gorau i'r disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Cofion cynnes

**Mansel Charles**

Cadeirydd y Llywodraethwyr

## Chairman's Report to parents/carers on behalf of the Governing body

Dear Parents / Carers,

It has been an exciting year with the schools with the Federation taking part in various activities and events as one e.g. various sports competitions, residential visits and concerts. Several achievements were celebrated following the Urdd Eisteddfod on an individual, as a party and within the Arts and Crafts competitions.

I think we can say that one of the highlights of the year was the Mam Maria shows. I would like to congratulate all children on their performance and to all staff for preparing and coordinating everything so professionally. I would also like to congratulate Year 5 and 6 pupils for their part in the cradle project led by Opera Cymru. A project where the pupils collaborated with the opera company and local dementia organisation. The June concert was the pinnacle of all work the work – Well done to all children.

It is also good to state that all schools within the federation are focal points within their local community. The list is endless which includes singing at various Christmas fairs and concerts, visits to local establishments, shops and elderly homes, links with the chapel and church and links with the local cychoedd meithrin.

Again, this year we have worked as a Federation as much as possible to ensure staff benefit on a weekly basis by collaboratively working and planning and sharing good practice. As well as Federation sports and residential visits, the schools have expanded the children's experiences by combining schools into Federation teams to ensure pupils can compete and participate.

It is clear, following learning walks within the three schools, that the pupils are happy and safe and feel valued within their schools. There is a homely and welcoming ethos and environment within each school. Standards are good and as a result pupils are making good progress.

To ensure a successful school there must be teamwork and I must refer to and thank Mrs. Davies, the headteacher, for her firm leadership and how Mrs. Alison Morgan, Miss. Alana Walker and Mrs. Lisa Williams (the senior management team) work with the headteacher, the governing body and the robust team of staff to self-improve the school. I would also like to thank all fellow governors, staff and families for your continued support of the three schools. Mrs. Carys Davies has settled in well in her role as the Federation's Additional Learning Needs Coordinator (ALNCo) and on a weekly basis visits all three schools to hold discussions, get to know the pupils as well as support staff and individuals.

It is beneficial as a governor to receive the weekly letters and dates so that we can have opportunities to attend events. It is great to see that the weekly letters at the beginning of each week continue to be an effective source of information for all parents and friends of the school.

Before closing, I wish to thank Mrs. Donna Williams, our former chair. Donna has worked with the schools for several years, a former headteacher who remained supportive above and beyond her role as governor. She has been an invaluable support to the Federation since formally federating in April 2021. I would also like to thank Miss. Helen Pugh, our finance chair, for sharing her expertise on financial matters within the subcommittee in recent years.

We look forward once again to another successful year within the Federation. Once again, thank you all for your tremendous support and I wish pupils, staff, governors and parents all the best in the next academic year.

Best Wishes,

**Mansel Charles**

Chairman of Governors

## Gwybodaeth am Gyfarfodydd Blynyddol Rhieni llywodraethwyr

Cafodd y gofyniad o gynnal cyfarfodydd blynyddol i rieni ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw. Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

### 1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.

Bydd angen i rieni o leiaf 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob riant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig.

Ar hyn o bryd mae [Cwrt Henri – 37, Ffairfach – 65, Talylychau - 58] o blant wedi'u cofrestru gyda'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

### 2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

### 3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

### 4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol.

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.

Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

**Mrs Yvonne Jones, Clerc y Llywodraethwyr, Ysgol Ffairfach, Heol Bethlehem, Ffairfach.**

**Llandeilo. SA19 6SY.**

Gellir gweld mwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=cy>

## Annual Parent Governor Meetings

The Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (The Act) has removed the requirement for school governing bodies to hold an annual meeting with parents. Instead, new arrangements were introduced to enable parents to request up to 3 meetings in any school year with a governing body, on matters which are of concern to them.

If parents wish to use their rights under the Act to hold a meeting, 4 conditions will need to be satisfied:

**1. Parents will need to raise a petition in support of holding a meeting.**

The parents of at least 10% of the school's registered pupils. If it is a paper petition, then a written signature must be given as well as the name and class of each child who is a registered pupil at the school. If the petition is in electronic format, the 'signature' required is the typed name of the parent plus the name and class of each child who is a registered pupil at the school and the email address of each parent who 'signs' the electronic petition.

At present there are (37 -Cwrt Henri, 65 – Ffairfach, 58- Talley) children registered as pupils with this school at the beginning of this academic year. Exact roll numbers at any time during the year may be obtained from the school office.

**2. The meeting must be called to discuss matters which affect the school**

The meeting cannot be called to discuss such matters as the progress of individual pupils, or to make a complaint against a member of the school's staff or governing body.

The petition should contain brief details of the matter(s) to be discussed, and the reasons for calling the meeting. This information should be clearly displayed at the top of the petition, with parents' signatures appearing below.

**3. A maximum of 3 meetings can be held during the school year.**

The law allows parents to use their rights to request up to 3 meetings with a school governing body during the school year.

**4. There must be at least 25 school days left in the school year**

The law makes it a condition that at least 25 school days are left in the school year when the petition is received so that the meeting can be held.

A "school day" means a day when the school is open to pupils: it does not include weekends, public holidays, school holidays or INSET days.

The address for service of a petition requesting a meeting with this school's governing body is:

**Mrs Yvonne Jones, Clerc of the Governors, Ysgol Ffairfach, Bethlehem road, Ffairfach, Llandeilo. SA19 6SY.**

Further advice on how parents may go about requesting a meeting with a governing body is available on the Welsh Government's website at:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=en>

**Pwy yw Pwy? / Who's who?  
Staff 2023-2024**

<b>Enw / Name</b>	<b>Rôl / Role</b>
Mrs S Davies	Pennaeth Head teacher
<b>YSGOL CWRT HENRI SCHOOL</b>	
Mr D Davies (Cothi)	Athro Blwyddyn 3,4,5 a 6 Year 3,4,5 & 6 Teacher
Mrs L Williams (Tywi)	Pennaeth cynorthwyol / Athrawes Dysgu Sylfaen Assistant Headteacher / Foundation Learning teacher
Mrs N Davies Mrs C Thomas Miss G Jones (tan Dolig / until Christmas)	Cynorthwywyr Support staff
Mrs S Childs	Swyddog cefnogi Ysgol /School support officer
Mr G Williams	Gofalydd a Glanhawr / Caretaker and Cleaner
Mrs J Rees	Cogyddes /Cook
<b>YSGOL TALYLLYCHAU SCHOOL</b>	
Miss A Walker (Wiwerod)	Pennaeth Cynorthwyol / Athrawes Dysgu Sylfaen Assistant Head teacher /Foundation Learning Teacher
Miss S James ( Cadnoid) Mr N Gale(Tylluanod)	Athrawon Cyfnod Allweddol 2 Key Stage 2 Teachers
Mrs D Roberts Mrs L Davies Mrs C Priday / Miss G Jones	Cynorthwywyr Support Staff
Mrs Y Jones	Swyddog Cefnogi ysgol /School support staff
Mrs S Lewis Mrs S Ashton	Cogyddes /Cook Amser cinio / lunchtime supervisor
<b>YSGOL FFAIRFACH SCHOOL</b>	
Mrs A Morgan (Dewi)	Pennaeth Cynorthwyol / Athrawes M/D a BI1 Assistant Head teacher /Teacher N,R & Y1
Mrs C Davies / Mrs K Jones (Dwynwen)	Athrawes Blwyddyn 2 a 3 Year 2 & 3 teacher
Mrs A O'Hara (Myrddin)	Athrawes Blwyddyn 4/5 Year 4/5 Teacher
Miss F Jones (Twm Sion Cati)	Athrawes BI6 - Teacher Year 6
Mrs A James Mrs L Lewis Mrs E Morse Miss E Rees Miss L Revitt Miss E Strudwick Mrs C Priday	Cynorthwywyr Support staff
Mrs Y Jones	Swyddog Cefnogi Ysgol /School support staff
Mrs D Beynon Mrs S Moses	Gofalyddion Caretakers
Mrs D Beynon	Cogyddes / Cook Staff y Gegin / Kitchen Staff
Mrs B. Walters / Mrs C. Davies	CADY Y Ffederasiwn / Federation ALNCO

### Llywodraethwyr 2023-2024

Enw / Name	Rôl / Role	Cyfnod yn gorffen Term ends
Mrs S Davies	Pennaeth / Head teacher	—
Mrs A Morgan	Cynrychiolydd athrawon / Teacher representative	31/3/25
Mrs L Williams	Cynrychiolydd athrawon / Teacher representative	31/3/25
Mrs N Davies	Cynrychiolydd staff/ staff representative	31/3/26
Mrs D Beynon	Cynrychiolydd staff/ staff representative	31/3/25
Mr M Charles	Cadeirydd / Chairperson Cynrychiolydd AALI / LEA Representative	31/3/25
Ms H Pugh	Is Gadeirydd / Vice Chairperson Cynrychiolydd Cymunedol / Community Rep	31/3/25
Mrs A Hughes	Cynrychiolydd AALI / LEA Representative	19/7/27
Mrs F Walters	Cynrychiolydd AALI / LEA Representative	31/3/27
Mrs D Williams	Cynrychiolydd AALI / LEA Representative	31/12/24
Mrs H Rice	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	31/3/25
Mr A Springthorpe	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	19/7/27
Mrs L Thomas	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	31/3/25
Mrs N Evans	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	19/7/27
Mrs I Denham	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	31/3/25
Mrs C Haggerty	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	31/3/25
Mrs J Cornock -Thomas	Cynrychiolydd Cymunedol / Community Rep	19/7/27
Mrs C Duncan	Cynrychiolydd Cymunedol / Community Rep	31/3/25
Mrs A Owen	Cynrychiolydd Cymunedol / Community Rep	13/3/26
Mrs D. Evans	Cynrych. Cymunedol ychwanegol / Additional Comm Rep	31/7/24
Mrs S Childs Mrs Y. Jones	Clerc y llywodraethwyr / Clerc of the governors	--



### Polisi iaith / Language Policy

Ysgol gyfrwng Gymraeg ( Categori 3) yw Ysgol Cwrt Henri, Ffairfach a Thallyllychau ac felly Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Derbynnir plant y dosbarth derbyn eu haddysg o'r diwrnod cyntaf yn y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg ym mlwyddyn 3 lle cynigir gwersi Saesneg a chyflwynir rhai gwersi trawsgwricwlaidd yn yr iaith Saesneg hefyd. Darperir gohebiaeth ddwyieithog i bawb. Mae gwefan yr ysgol yn ddwyieithog. G

Cwrt Henri, Ffairfach and Talley School is a Welsh medium school ( Category 3) therefore Welsh is our primary language. Pupils as they start in the reception class receive all their education through the medium of Welsh. English is introduced formally at year 3 whereby pupils receive English lessons. Also some cross curricular lessons are taught through the medium of English. All correspondence, including the school's website are bilingual.

### Addysg Uwchradd / Secondary education

Mae'r dair Ysgol yn bwydo'n naturiol dwy Ysgol Uwchradd sef Ysgol Bro Dinefwr a Ysgol Maes y Gwendraeth. Eleni mae bron bob un yn trosglwyddo i Fro Dinefwr gyda un yn trosglwyddo i Fro Myrddin.

All three schools naturally feed two secondary schools Bro Dinefwr school and Maes y Gwendraeth. In September nearly all pupils will transfer to Bro Dinefwr with one transferring to Bro Myrddin.



### Rhifau a threfniadaeth dosbarth / Numbers and classroom arrangement 2023-24

#### YSGOL CWRT HENRI SCHOOL

	TYWI				DULAS		COTHI		
<b>Blynyddoedd:</b> <b>Years</b>	N2	R	1	2	3	4	5	6	
<b>Cyfanswm:</b> <b>Total</b>	<b>1</b>	<b>3</b>	<b>5</b>	<b>6</b>	<b>5</b>	<b>12</b>	<b>4</b>	<b>7</b>	<b>43</b>

#### YSGOL FFAIRFACH SCHOOL

	Dewi			Dwynwen			Myrddin		Twm Sion Cati	
<b>Blynyddoedd:</b> <b>Years</b>	N2	R	1	2	3	4	5	6		
<b>Cyfanswm:</b> <b>Total</b>	<b>7</b>	<b>12</b>	<b>8</b>	<b>8</b>	<b>9</b>	<b>7</b>	<b>13</b>	<b>17</b>	<b>81</b>	

#### YSGOL TALYLLYCHAU / TALLEY SCHOOL

	Wiwerod				Cadnoid		Tylluanod		
<b>Blynyddoedd:</b> <b>Years</b>	N2	R	1	2	3	4	5	6	
<b>Cyfanswm:</b> <b>Total</b>	<b>8</b>	<b>5</b>	<b>12</b>	<b>5</b>	<b>10</b>	<b>10</b>	<b>9</b>	<b>6</b>	<b>65</b>

### **Clwb Brecwast / Breakfast Club**

Mae'r clwb am ddim a gaiff ei gynnal yn yr ysgol rhwng 8:00 a 8:45y bore o fewn y dair Ysgol.  
The breakfast club is free and is held at the school between 8:00 and 8:45am within the 3 schools.

### **Diwrnod Ysgol / School day 2023-34**

	Amser cyrraedd yn y bore Arrival time in morning	Amser dechrau'r Ysgol Start time of school	Diwedd dydd End of day
Cwrt Henri	8:40	8:50	3:10
Ffairfach	8:50	9:00	3:30
Talylychau Talley	8:50	9:00	3:30

### **Amcanion a chynllun cydraddoldeb ac anabledd / Equality and disability scheme**

Nid oes unrhyw ddisgyblion anabl ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r ysgolion wedi'i hadeiladu yn bwrpasol ac yn addas ar gyfer unrhyw berson anabl i gael mynediad i'r Ysgol. Nid oes cyfleusterau ty bach na cawod ar gael o fewn yr ysgolion. Ceir copi o gynllun ac amcanion cydraddoldeb yr ysgol ar y wefan. Os fyddai sefyllfa yn codi byddai'r Sir yn ail asesu'r sefyllfa.

There are no disabled pupils on the register at present. The school building is purposely built and is suitable for disabled access for any disabled pupil/adult. There are no disabled toilet and a shower facility in the three schools if needed. A copy of the school's Equality plan is published on the website. If there was a need county will re assess the situation.

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs**

Mae polisi ADY yr ysgol yn un effeithiol ac eang ac yn un sy'n cyflawni gofynion y Còd Ymarfer. Mae 29 o ddisgyblion ar y gofrestr ADY ar draws y ffederasiwn, ac rydym yn awyddus i glustnodi unrhyw anawsterau sydd gan y plant cyn gynted ag y bo modd, ac ymateb iddynt yn y ffordd mwyaf priodol. Ystyrir bod ymyrraeth gynnar yn angenrheidiol i sicrhau diwallu anawsterau ag anghenion y plentyn unigol. Ers mis Medi 2021 Mrs B Walters sydd a chyfrifoldeb cydlynnu Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws y Ffederasiwn. Yn dilyn derbyn swydd Newydd Mrs C Davies yw'r CADY Ffederasiwn ers Ionawr 2024. Mae cynorthwyr penodol yn cyd-weithio â'r athrawon dosbarth a'r cynorthwyr i sicrhau bod y sesiynau unigol a dderbynia'r plant yn cael eu hymestyn a'u hymarfer yn feunyddiol o fewn gweithgarwch y dosbarth. Mae gan y disgyblion yma dargedau penodol yn ol eu hanghenion Penodwyd Mrs L Thomas, Mrs C Haggerty a Mrs N Evans fel llywodraethwr cyswllt o fewn y maes.

*The school's ALN policy is effective and wide-ranging and one that fulfils the requirements of the Code of Practice. There are 29 pupils currently on the ALN register across the federation, and we are keen to identify any difficulties the children have as early as possible and respond to them in the most appropriate way. Early intervention is considered necessary to ensure that difficulties are met with the individual child's needs. Since September 2021, Mrs. B Walters has had responsibility for coordinating Additional learning needs (ALN) across the Federation. Following receipt of a new job Mrs C Davies is the new Federation ALNCO since January 2024. Specific assistants work with the class teachers and assistants to ensure that the individual sessions the children receive are extended and reinforced daily within the classroom activity. Each pupil has specific targets according to their needs.*

*Mrs. L Thomas, Mrs. C Haggerty and Mrs. N Evans were appointed as associate governors within the ALN field.*



## Amddiffyn Plant a Iechyd a Diogelwch / Safeguarding and Health and Safety

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol a'r polisi Amddiffyn Plant yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Mae'r ddau bolisi yn dilyn canllawiau llywodraeth Cymru a Cyngor Sir Gar a cawn eu hadolygu yn flynyddol. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant (Pennaeth) neu y Penaethiaid cynorthwyol am unrhyw ddiffygion/peryglon a phryderon yn syth. Mae'r ddau bolisi ar gael i'w darllen. Mae'r ysgol hefyd yn dilyn unrhyw ganllawiau iechyd a diogelwch ychwanegol a ddiweddarir yn gyson gan y sir.

Mae'r adeiladau yn parhau i fod mewn cyflwr da ac yn darparu cyfleusterau o safon uchel ar gyfer ei ddisgyblion. Caiff yr adeiladau eu cadw a'i gynnal dan arweiniad Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r gwasanaeth glanhau. Mae cyfleusterau, megis toiledau yn cael eu cadw'n lân gan y glanhawyr ac maent yn ddigonol ar gyfer y nifer o blant yn yr ysgol.

The school's Health and Safety policy and the Child Protection policy reflect the wish of the Governing Body to provide a safe and secure environment for both pupils and staff. Both policies follow Welsh government and Carmarthenshire County council guidelines and are reviewed annually. All members of staff are advised of their duty to report any deficiencies/dangers and concerns to the Health and Safety/Child Protection Officer (the headteacher) or the Assistant Heads immediately. A copy of both policies are available at the school. The school also follows any additional health and safety guidelines which are regularly updated by the county.

The buildings continue to be in a good state, providing excellent facilities for its pupils and staff. The school is maintained and kept well under the service level agreement between the school and Carmarthenshire County Council. The toilets are kept clean and hygienic by the cleaners and these facilities conform with the Welsh Government guidelines.



## Cyllid yr Ysgol / School budget

Gwelir isod gwariant yr ysgol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r costau'n cynnwys cynhaliath staffio, cynnal a chadw'r adeilad a thalu am gyflenwad o adnoddau cwricwlaidd. Ni wnaed taliad ar gyfer treuliau teithio neu gynhaliath i'r un aelod o'r Corff Llywodraethu'r ysgol a ni dderbynnir unrhyw roddion.

*See below for the school's summary of expenditure for the last academic year. The figures include staffing provision, the school's repair and maintenance costs including utility costs and the curricular supply of resources. No gifts, travelling or subsistence claims were made by any member of the governing body during the year.*

	<b>2061</b>		<b>Ffairfach</b>
Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2023/24.			Please see below a summary of your school's final outturn position for 2023/24.
		£	
Gwariant Net 2023/24	511,207		Net Expenditure 2023/24
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2023/24	-451,316		Formula Funding Allocation 2023/24
Arian Wrth Gefn a Ddysgwyd Ymlaen o 2022/23	-73,668		Surplus Brought Forward from 2022/23
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i 2024/25	-13,777		Surplus Carried Forward to 2024/25

	<b>2065</b>		<b>Talley</b>
Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2023/24.			Please see below a summary of your school's final outturn position for 2023/24.
		£	
Gwariant Net 2023/24	266,479		Net Expenditure 2023/24
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2023/24	-248,925		Formula Funding Allocation 2023/24
Arian Wrth Gefn a Ddysgwyd Ymlaen o 2022/23	-31,888		Surplus Brought Forward from 2022/23
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i 2024/25	-14,334		Surplus Carried Forward to 2024/25

2067

Cwrt Henri

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol  
terfynol eich ysgol ar gyfer 2023/24.

Please see below a summary of your  
school's final outturn position for 2023/24.

	£	
Gwariant Net 2023/24	270,503	Net Expenditure 2023/24
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2023/24	-261,218	Formula Funding Allocation 2023/24
Arian Wrth Gefn a Ddysgwyd Ymlaen o 2022/23	<u>-56,102</u>	Surplus Brought Forward from 2022/23
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i 2024/25	<u>-46,817</u>	Surplus Carried Forward to 2024/25



## CWRICWLWM AC ASESU

Mae'r holl staff i'w canmol am safon y darpariaeth a gynigir i ddisgyblion y Ffederasiwn. Gweithia pob un yn gydwytbodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Traciwn ac aseswn gynnydd disgyblion gan ddefnyddio system dracio mewnol.

Anelwn am Ffederasiwn lle mae pob plentyn yn bwysig a lle hyrwyddir safonau trwy brofiadau sy'n herio ac yn ysbrydoli. Mae'n ffocws ni ar hyrwyddo unigolion iach hyderus ac annibynnol sy'n cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn ymfalchio yn eu llwyddiannau gan sicrhau ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

Ein nod fel Ffederasiwn yw datblygu cymuned fach, glos Gymreig ei naws o fewn pob ysgol unigol yn ogystal a ymestyn profiadau pob disgybl drwy fod yn rhan weithredol o dim ehangach y Ffederasiwn.

Trwy ddefnyddio dull dysgu sydd wedi ei seilio ar themâu ysgol gyfan a Cwricwlwm i Gymru, sicrheir addysg eang a chytbwys. Asesir cynnydd plentyn ymhob rhan o'i gwaith ac, os oes angen, cysylltir â'i rhieni.

Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod pob plentyn yn gwneud camau fe unigolion ac yn tyfu i fod yn ymwybodol o ddiwylliant a hunaniaeth Gymreig.

Y mae gan y Ffederasiwn hefyd bolisi cydraddoldeb. Ceisir hyrwyddo'r polisi trwy ei gynnwys yn y cwricwlwm a'r gwersi a addysgir pan fydd cyfle. Mae'r ysgol yn llunio ac yn diwygio polisiau i egluro sut y diwellir y gofynion.

Mae'r cwricwlwm wedi ei wreiddio trwy y pedwar diben sef datblygu:

- Unigolion iach a hyderus
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- Dysgwyr gwybodus ac uchelgeisiol
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol

Gwneir hyn trwy gynllunio yn ol yr hyn sy'n bwysig o fewn y 6 Maes dysgu a phrofiad:

- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol

Ar draws y Ffederasiwn rhoddwn bwyslais ar ddatblygu'r Medrau Allweddol, sef Llythrennedd, Rhifedd a Cymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm.

Y mae'r ysgol hefyd wedi llunio Cynllun Datblygu Ysgol sy'n llywio yn fanwl ddatblygiad yr ysgol dros y flwyddyn gyfredol.

## CURRICULUM AND ASSESSMENT

All the staff are to be commended for the quality of provision offered to the pupils across the Federation. All work conscientiously to ensure the best education for all our pupils. We track and assess pupil progress using a bespoke school tracker and termly progress meetings

We aim for a Federation where all children are important and where standards are promoted through experiences that challenge and inspire. The focus is on promoting confident and independent healthy individuals who take ownership of their learning and are proud of their successes by ensuring principled, informed citizens who are ready to be citizens of Wales and the world.

Our aim as a Federation is to develop a small, close-knit Welsh-speaking community within each individual school as well as to extend the experiences of all pupils by being an active part of the wider team – The Federation

By using a teaching and learning method which is based on whole school themes and the Curriculum for Wales we ensure a balanced and varied education. Pupils progress is assessed in all areas and if needed parents are contacted.

We provide a curriculum that ensures that every child develops an awareness of Welsh culture and Welsh identity.

The school has an equal opportunities policy. An effort is made to promote this policy by including it in the curriculum and at every opportunity during the lessons taught.

The curriculum is established through the four purposes which are to develop:

- Confident and healthy individuals
- Ethical, informed citizens
- Ambitious and capable learners
- Enterprising and creative contributors

This is planned according to what matters statements within the 6 areas of learning:

- Language, literacy and Communication
- Mathematics and Numeracy
- Science and Technology
- Health and Wellbeing
- Humanities
- Creative Arts

Across the Federation we place an emphasis on developing the Key Skills in Literacy, Numeracy and Digital Competency across the curriculum.

The school have also created a School Development Plan which steers the school's journey of development during the year.

**CYNLLUN DATBLYGU YSGOL**  
**SCHOOL DEVELOPMENT PLAN**

Mae'r cynllun datblygu yn mynd i'r afael a'r blaenoriaethau sy'n deillio o weithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol, blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd a dadansoddiad o gynnydd a safonau disgyblion. Mae'r ysgol yn dilyn system hunan arfarnu gadarn er mwyn adnabod cryfderau, meysydd gwella a'r ffordd ymlaen ac mae'r Corff Llywodraethol yn rhan o fonitro cynnydd yr ysgol hefyd. Gosodwyd y rhan fwyaf o flaenoriaethau eleni yn dilyn arolwg Estyn yn Mehefin 2023.

*The development plan addresses the priorities arising from the school's self-evaluation procedures, National and local priorities together with an analysis of pupils' progress and standards. The School follows a robust self-evaluation system in order to identify strengths, areas of improvement and the way forward and the Governing Body is also part of monitoring the school's progress. This year most priorities were set following an Estyn inspection in June 2023.*

**BLAENORIAETHAU 2023-24 PRIORITIES**

<b>Erbyn Gorffennaf 2024 fe fydd yr Ysgol yn:</b>	<b>By July 2024 the School will:</b>
Sicrhau bod blaenoriaethau Ysgol yn fesuriadwy a chlir.	Ensure that School improvement priorities are measurable and clear.
Sicrhau bod asesu ac adborth athrawon yn gyson gefnogi y disgyblion i wella eu gwaith ac i ymrywno yn nhaith dysgu eu hunan.	Ensure that teacher Assessment and feedback supports pupils to regularly improve their work and engage in their own learning journey.
Gwella ysgrifennu estynedig y disgyblion o fewn y ddwy iaith. (CH a T)	Improve pupils' extended writing in both languages (CH&T)
Enhangu y cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chymunedau amlddiwylliannol.	Ensure wider opportunities for pupils to develop a purposeful awareness of diversity and multicultural communities

**BLAENORIAETHAU 2024-25 PRIORITIES**

<b>Erbyn Gorffennaf 2025 fe fydd yr Ysgol yn:</b>	<b>By July 2025 the School will:</b>
Datblygu rolau ac effeithiolrwydd arweinwyr Meysydd dysgu a Phrofiad yn mhrosesau hunan werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.	Develop the roles and effectiveness of Areas of Learning leaders within self-Evaluation processes and planning for Improvement.
Mireinio a gwreiddio darpariaeth yr ysgol i wella a dyfnhau sgiliau rhesymu mathemategol, rhuglder a datrys problemau disgyblion.	Refine and embed the school provision to improve and deepen pupils' mathematical reasoning skills, fluency and problem-solving skills.
Mireinio prosesau asesu ac olrhain cynnydd a sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth am asesu i addasu eu haddysgu i gefnogi a herio'r holl ddisgyblion yn briodol.	Refine assessment and tracking processes to ensure teachers use Assessment information to adapt their Teaching to Support and challenge all pupils appropriately.

# Y Ffederasiwn



# The Federation


<b>Llwyddiannau a digwyddiadau</b> <b>Achievements and events</b>		
<b>Gweithgareddau chwaraeon a lles</b> <b>Sporting and wellbeing events</b>	<b>Ymweliadau/Diwgyddiadau</b> <b>Visits / Events</b>	<b>Gweithgareddau Cymunedol</b> <b>Community events</b>
Hyfforddiant llysgenhadon chwaraeon / <i>Sports ambassador training</i>	Ymweliad preswyl Blwyddyn 4 a 5 i Langrannog / Year 4 & 5 Residential visit to Llangrannog	Blwyddyn 5 a 6 Prosiect y crud (Cydweithio gyda cwmni opera Cymru a grwp dementia lleol)/ Year 5 & 6 – <i>Cradle project (working with Welsh National Opera and local dementia group)</i>
Cystadleuaeth traws gwlad Bl3 - 6/ <i>cross country competition Y3-6</i>	Ymweliad preswyl Blwyddyn 6 i ganolfan Llain / Year 6 residential visit to Llain	Blwyddyn 5 a 6 – Gwyl Len Llandeilo. Gweithgareddau gyda Ysgolion lleol Llandeilo / Year 5 & 6 – <i>Llandeilo Literacy Festival including working with Llandeilo local schools</i>
Gwyliau rygbi / <i>Rugby festivals</i>		
Bl5 a 6 Pel droed / <i>Year 5 &amp; 6 football</i>	Blwyddyn 3 – 6 Cyngerdd y gwasnaeth cerdd / <i>Year 3-6 Music peripatetic concert</i>	
Bl3 a 4 Rygbi Tag yr Urdd / <i>Year 3 &amp; 4 Urdd Tag rugby</i>	Gweithdai Siani Corn i'r dysgu sylfaen / <i>Siani corn workshops for the Foundation phase</i>	Ffair lyfrau Scholastic / <i>Scholastic book fair</i>
Gwersi nofio / <i>Swimming Lessons</i>	Dangos cerdyn coch i hiliaeth / <i>Show racism the red card</i>	Nosweithi rhieni gan gynnwys sesiwn Dewch i Ddathlu / <i>Parents evening including come and celebrate</i>
Bl3 /Year 3 - Decathlon	Diwrnod Siwperi Nadolig / <i>Christmas jumper day</i>	Perfformio yn Ffair Aeaf Parc Dinefwr / <i>Performing in the Winter Fair at Dinefwr Park</i>
Blwyddyn 6 – Sesiynau beicio yn ddiogel / <i>Year 6 cycling proficiency</i>	Diwrnod Plant mewn Angen / <i>Children in need day</i>	Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd / <i>Competing in the Urdd Eisteddfod</i>
Mabolgampau y Ffederasiwn / <i>Federation Sports Day</i>	Diwrnod Shwd Mae Su'mae day	Diwrnodau Pontio Bl5 a Bl6 / <i>Year 5 &amp; 6 transition days</i>
Mabolgampau Clwstwr Dinefwr / <i>Dinefwr cluster sports day</i>	Bl6 – Cwis dim Clem Menter / <i>Year 6 Dim Clem quiz with Menter</i>	Gwasanaethau Dosbarth a gwobrwyo y Ffederasiwn / <i>Federation class and celebration assembly</i>
Sesiynau Llythrennedd corfforol gyda Ysgol Bro Dinefwr / <i>Physical literacy sessions with Bro Dinefwr school</i>	Diwrnod y Llyfr / <i>World Book Day</i>	Lluniau unigol gan Finesse / <i>Individual photographs by Finesse</i>
Gweithgareddau yn ystod wythnos iechyd meddwl / <i>Awareness Activities during mental health week</i>	Gweithdy gyda Band Nantgaredig / <i>Workshop with the Nantgaredig community band</i>	Cyngerdd prosiect y crud / <i>Cradle project performance</i>
Sesiynau gyda PC Diana / <i>PC Diana sessions</i>	Gweithdy Stori a symud gyda Lowri / <i>Story workshop with Lowri</i>	Gwasanaethau ymadael Blwyddyn 6 / <i>Year 6 leavers assemblies</i>
Sesiynau dawns gyda Ebony / <i>Dance sessions with Ebony</i>	Prosiect Sgriptio i ddatblygu'r Gymraeg / <i>Scripting project to develop Welsh written work</i>	
Bl6 – Sgwrs Tyfu fyny gyda'r nyrs Ysgol / <i>Y6 – puberty talk with the school nurse</i>	Sioe Arad Goch / <i>Arad Goch show</i>	
	Sesiwn gyda NFU am hufen ia / <i>NFU session on ice cream</i>	

# Ysgol Cwrt Henri - Cwrt Henri school

## Llwyddiannau a digwyddiadau / Achievements and events

Derbyn baner eco platinwm fel ysgol / Receive Platinum eco flag as a school



Gweithgareddau chwaraeon a lles Sporting and wellbeing events	Ymweliadau/Diwyddiadau Visits / Events	Gweithgareddau Cymunedol Community events
Diwrnod 'Great British Clean' day – diwrnod eco / eco day	Ymweliad a Castell Aberteifi / Visit to Cardigan castle (Olion)	Gwasnaeth Diolchgarwch i godi arian i Macmillan / Harvest thanksgiving raising money for Macmillan
Gweithdy plethu helyg / willow weaving workshop	Cystadleuaeth Cog Urdd / Cog Urdd competition	Brecwast Macmillan / Macmillan breakfast
Blwyddyn 5 a 6 treialon rygbi / Year 5 & 6 rugby trials	Sesiwn cwrdd a'r achubwr dwr / Meet the lifeboat session	Sesiynau pontio gyda cylch Cwrt Henri / Transition sessions with Cwrt Henri cylch
Taith Gerdded Noddedig i Dementia / Sponsered walk in aid of Dementia	<b>Parti Unsain yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Meifod / Unison party at the Urdd National Eisteddfod at Meifod</b>	Gwasanaeth Cofio yn Llanfynydd / Remembrance service in Llanfynydd
	Blwyddyn 5 a 6 sesiynau blogio / Year 5 & 6 blogging sessions	Noson Cawl a chan a bingo yn New Cross / Cawl a chan & bingo evening at New Cross
	<b>Ail rownd cwis dim clem / 2<sup>nd</sup> round in dim clem quiz</b>	Sesiynau Ti a fi misol / Ti a fi monthly sessions
	Trwy dy lygaid di – sesiwn ffotograffiaeth gyda Mathew Browne / photography session with Matthew Browne	Gweithdy asesiad risg a hylendid bwyd i'r gymuned / Risk assessment and food hygiene workshop for the community
	Cothi – Gweithdy ffilmio Egin / Filming workshop at Egin	Bore agored yr Ysgol / School open morning
		Bl5 a 6 - Sesiwn gyda grwp dementia Llangathen / Year 5 & 6 - Session with dementia group in Llangathen
		Perfformio yn Ffair Aeaf Aberglasney / Performing in the winter fair at Aberglasney
	Addurno Coeden Nadolig y Siop Gymunedol / Decorate the Christmas tree within the community shop	
	<b>Sioe Nadolig Mam Maria yn yr Ystafell Ddarllen / Mam Maria Christmas show in the reading room</b>	



# Ysgol Ffairfach – Ffairfach school

## Llwyddiannau a digwyddiadau / Achievements and events

Derbyn ail faner eco fel ysgol / Receive 2<sup>nd</sup> eco flag as a school



Gweithgareddau chwaraeon a lles Sporting and wellbeing events	Ymweliadau/Diwyddiadau Visits / Events	Gweithgareddau Cymunedol Community events
Gweithdy awyr agored yn Parc Dinefwr / Outdoor learning workshop at Park Dinefwr	Myrddin a Twm Sion Cati – Chwilio am olion yn y gymuned / Looking for landmarks in the community	Diwrnod pinc – rhan o troi Llandeilo yn binc i gansyr / Pink day – raising waareness of turning Llandeilo pink for cancer (Tenovous)
Pel Rwyd yr Urdd / Urdd netball	Cystadleuaeth Cog Urdd / Cogurdd competition	Gwasanaeth Diolchgarwch Llandeilo / Llandeilo Harvest service in church
Sesiwn rygbi Scarlets / Scarlets rugby sessions (Dwynwen)	Ymweliad a'r Gerddi Botaneg fel rhan o brosiect y crud / Visit to Botancial gardens	Sesiynau rheolaidd yn Awel Tywi / Regular sessions at Awel Tywi residential home
Diwrnod 'Great British Clean' day	Sesiwn Nadoligaidd gyda Menter / Christmas session with Menter	Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Tabernacl / Harvest thanksgiving at Tabernacle
Sesiynau dawns Ebony/ Ebony dance sessions	Sesiynau 'Reading dogs' / Reading dogs' sessions	Gwasanaeth Sul y Cofio yn Ffairfach a Llandeilo / Remembrance Sunday service at Ffairfach & Llandeilo
Treialon rygbi – Blwyddyn 4 a 5 / Rugby trials – Year 4 & 5	Ymweliad Dewi a'r geifr yn YBD / Visit to see the goats at 'Bro Dinefwr'	Perfformio yng Ngwyl y Synhwyr / Performance in the Festival of the senses
Sesiwn rygbi Scarlets / Scarlets rugby sessions	Cor a offerynnwyr – cyngerdd proms / Choir and instrumentalists – proms choir	Troi goleuadau arno yn Ffairfach a Trap / Turning on of Christmas lights
	Gweithdy egni adnewyddadwy / Renewable energy workshop	Perfformio yn Ffair Aaeaf Aberglasney / Performing in the winter fair in Aberglasney
	Sesiwn cwrdd a achubwr bywyd / meet the lifeboat session	Ffair Nadolig yr Ysgol / School Christmas fair
	TSC – Gwers nwyon draw yn Bro Dinefwr / Gases lesson in Bro Dinefwr	Pared Pasg / Easter Parade
	<b>Llwyddiant Celf a Chrefft yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Meifod / Art &amp; Crafts success at National Urdd Eisteddfod Meifod</b>	Bore agored yn yr Ysgol a'r cylch / Open morning within school and cylch
	BI5 a 6- Sesiwn blogio /Year 5 & 6 – blogging session	<b>Sioe Nadolig Mam Maria yn Capel Tabernacl / Mam Maria Christmas show in Tabernacle chapel</b>
	Gweithdy trydan / Electricity workshop	
	Gwasanaeth 'Mad science' assembly	





# Ysgol Talylychau – Talley school

## Llwyddiannau a digwyddiadau / Achievements and events

3ydd – Canu yn unigol B12 ac iau (Eisteddfod yr Urdd) / 3<sup>rd</sup> – solo year 2 & under (Urdd Eisteddfod)

Gweithgareddau chwaraeon a lles Sporting and wellbeing events	Ymweliadau/Diwgyddiadau Visits / Events	Gweithgareddau Cymunedol Community events
Sesiynau dawns gyda Ebony / <i>Dance sessions with Ebony</i>	Digyblion yn cydweithio ar gyfweiliadau ym mhencadlys yr heddlu / <i>Pupils working at police headquarters within interviews</i>	Gwasanaeth diolchgarwch – casglu at y banc bwyd / <i>Harvest thanksgiving – collection towards food bank</i>
B13 a 4 – Rygbi tag yr Urdd / <i>Year 3 &amp; 4 – Urdd tag rugby</i>	Clwb cor wythnosol / <i>Weekly choir club</i>	Noson Pitsa, pwddin a tip it / <i>Pitsa, Pudding &amp; tip it evening</i>
Sesiwn rygbi Scarlets / <i>Scarlets rugby sessions</i>	Sesiwn gyda grwp dementia Llangathen – clwb Cathen / <i>Session with the dementia group at Llangathen</i>	Noson cawl a chan / <i>Cawl a chan evening</i>
	Llwyddiant Eisteddfod – Celf a Chrefft, Cor	Ymweliad a sioe cyw gyda Cylch Llansawel / <i>Visit to cyw show with Llansawel cylch meithrin</i>
		<b>Sioe Nadolig Mam Maria yn yr ysgol / Mam Maria Christmas show in the school.</b>



Diwrnodau HMS / Inset days 2024/25  
01/09/24 25/10/24 4/11/24 (CH/T) 8/11/24 (Ff) 6/1/25 28/4/25 21/7/25

### TYMHORAU A GWYLIAU HYDREF 2024 – HAF 2026

Hydref 2024	Dydd Mawrth 3ydd Medi	Dydd Llun 28ain Hydref - Dydd Gwener 1af Tachwedd	Dydd Gwener 20fed Rhagfyr
Gwanwyn 2025	Dydd Llun 6ed Ionawr	Dydd Llun 24ain Chwefror - Dydd Gwener 28ain Chwefror	Dydd Gwener 11eg Ebrill
Haf 2025	Dydd Llun 28ain Ebrill	Dydd Llun 26ain Mai - Dydd Gwener 30ain Mai	Dydd Llun 21ain Gorffennaf
Hydref 2025	Dydd Mawrth 2ail Medi	Dydd Llun 27ain Hydref - Dydd Gwener 31ain Hydref	Dydd Gwener 19eg Rhagfyr
Gwanwyn 2026	Dydd Llun 5ed Ionawr	Dydd Llun 16eg Chwefror - Dydd Gwener 20fed Chwefror	Dydd Gwener 27ain Mawrth
Haf 2026	Dydd Llun 13eg Ebrill	Dydd Llun 25ain Mai - Dydd Gwener 29ain Mai	Dydd Llun 20fed Gorffennaf

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/dyddiadaur-tymhorau-ysgolion/>

### TERM TIMES AND HOLIDAYS AUTUMN 2024 – SUMMER 2026

Autumn 2024	Tuesday 3rd September	Monday 28th October – Friday 1st November	Friday 20th December
Spring 2025	Monday 6th January	Monday 24th February – Friday 28th February	Friday 11th April
Summer 2025	Monday 28th April	Monday 26th May – Friday 30th May	Monday 21st July
Autumn 2025	Tuesday 2nd September	Monday 27th October to Friday 31st October	Friday 19th December
Spring 2026	Monday 5th January	Monday 16th February to Friday 20th February	Friday 27th March
Summer 2026	Monday 13th April	Monday 25th May to Friday 29th May	Monday 20th July

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/education-schools/school-term-dates/>

**Braf oedd eleni cael calendar llawn o weithgareddau a digwyddiadau. Cafodd y disgyblion nifer o brofiadau byth gofiadwy unwaith eto eleni a rwy'n siwr i chi gyd yn cytuno mae'r pincl oedd y sioeau Mam Maria – roedd pob un yn ser y sioe. Hoffwn i ddiolch i chi gyd am eich cefnogaeth barhaus yn ystod 2023-24 a gobeithio eich bod yn barod i ymuno yn y calendr amrywiol sydd gan 2023-24 i'w gynnig.**

***It was so nice to take up a full calendar of events and activities. All children had a vast number of lifelong experiences and I'm sure you'd agree that the highlight was the Mam Maria shows – each pupil was the star of the show. I wish to thank you all for your continued support during 2023-24 and hope you are all ready to join the calendar of events that 2024-25 has to offer.***

*Sian Davies*

**Pennaeth / Headteacher**